

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Medi 17ddeg - 2014
am 7.30 o'r gloch.

1. Presennol - Cyngorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Geraint Parry (Clerc), Carwyn Jones (CJ), Alwena Roberts (AW), Lewis Davies (LD), Rhian Hughes (RH), Dafydd Pritchard (DP), Gill Cheverton (GC)

2. Ymddiheuriadau - Cyng. M Williams, P Gash, A Rowlands.

3. Datgan Ddiddordeb

Cyng. M Roberts a A Roberts ar gais 22C222 Gwelfryn.

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16ddeg o Orffennaf fel rhai cywir gan Cyng. R Hughes, eilio gan Cyng. D Pritchard.

Agorwyd y cyfarfod gan ddiolch i Cyng. D Pritchard am drefnu cael defnyddio ystafell cefn Capel Peniel. Siomedig iawn gyda'r Cyngor Sir, nid ydym wedi derbyn newyddion ymhellach gyda chael defnydd o'r Ysgol.

GC yn egluro fod hi yn sefyll lawr fel Is-Gadeirydd.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 **Fynwent Llanddona** - gwrandawriad wedi ei drefnu ar 28/10/14 am 10yb yn Canolfan Busnes, Bryn Cefni, Llangefni. Cyngor Sir yn defnyddio cyfreithiwr C Skinner, sydd wedi cysylltu gyda MR er mwyn iddo gael cyfle i godi materion ar gyfer y Cyngor Cymuned. Clerc i anfon y wybodaeth ymlaen erbyn 26/09/14.

5.2 **Llwybr Tai Bach** - CJ wedi ysgrifennu at Mr R Dew (deilydd portffolio). Dim newyddion ymhellach.

5.3 **Difrod ar y Traeth** - 3 arwydd wedi ei osod, un wedi ei falu. LD wedi codi'r mater gyda PCSO lleol. MR wedi cael gair gyda'r Warden. Clerc wedi derbyn ymateb i'n cwestiwn ynglŷn ar Bwnd ger Bwthyn Towyn - bod wedi ymweld ar safle ar 19/08/14, "nid oedd tystiolaeth o fwnd i'w weld ger ymyl y llinell llanw. Yn sgil hyn ni allaf argymhell fod y Cyngor Sir yn cymryd camau gorfodaeth. MR i ddod a dogfen i gyfarfod nesaf.

5.4 **Gwasanaeth Cymdeithasol, adeiladu cymunedau** - cyfarfod nesaf 30/09/14 am 5.30 yn Neuadd Pentref Llanddona. Cardiau gwasanaeth ar gael yn Canolfan Hamdden Biwmares.

5.5 **Cadw Biniau yn Ponc y Felin** - Wedi derbyn ymateb i'n llythyr gan y Cyngor Sir - llwybr yn wasanaeth i chwe eiddo, un sydd yn eiddo i'r Cyngor Sir. Un opsiwn efallai trigolion Ponc y Felin i'w ystyried gwneud cais am gymorth ariannol tuag at unrhyw welliannu trwy raglen grant cymunedol. Fydd rhaid cael cefnogaeth pawb yn y stryd i fynd am grant. CJ yn cytuno i ofyn barn deiliaid y tai. Cwestiwn, pwy sydd yn gyfrifol o'r wal a llwybr?

5.6 **Cerrig ger Llain Gron** - dim wedi derbyn ymateb i ein llythyr. Cyng. L Davies i ddilyn hyn i fyny. Mater fel hyn nawr yn boblogaidd o amgylch y pentref.

5.7 **Maes Canmlwyddiant** - Clerc wedi anfon y cais ymlaen i'r Cyngor Sir, disgwyl ymateb.

5.8 **Galw Oer** - mae rhaid cael 66% o ddiddordeb yn y cynllun. Gosod gwybodaeth ar "Facebook" y Cymuned a hysbysebu'r sefyllfa.

6. Adroddiad gan y Cyngorwyr

LD - wedi anfon llythyr ymlaen i Mr R Parry-Jones Cyngor Sir i gael defnyddio'r Ysgol fel adeilad addas. Siomedig iawn fod ddim wedi cael cydnabyddiaeth i'r ohebiaeth. Cyngor Sir wedi trafod y mater 16/09/14. RH yn adrodd fod cyfarfod blynyddol pwyllgor y Neuadd ar 22/09/14, lle y byddai'n bwysig cael unrhyw adborth gan y Cyngor Sir erbyn y dyddiad yma.

Hefyd mae'r Cyngor Sir wedi cynnig cymorth gyda cheisiadau grant.

CJ - wedi bod yn llwyddiannus cael bws ieuencid i ddod i'r pentre' am gyfnod o 12 wythnos, dechrau 18/09/14, rhwng 7 - 8.30yh. Addas i blant oedran 11 - 15.

7. Ceisiadau Cynllunio

- Cais 22C222 - Cais amllinellol ar gyfer codi annedd gyda'r holl faterion wedi'u gadw'n ol ar dir ger Gwelfryn, Llanddona - dim gwrthwynebiad.

Er gwybodaeth

- 22C220 Cais llawn ar gyfer dymchwel, addasu ac ehangu yn 7 Mynydd Crafoed - wedi ei caniatáu.
- 22C40A Cais llawn ar gyfer dymchwel yr annedd presennol a modurdy yn Cae Maes Mawr - wedi ei wrthod. Cais yn mynd i apêl, dyddiad cychwyn 10/09/14. Unrhyw sylwadau ymhellach i anfon i mewn ar-lein gyn-pen 6 wythnos, sef 22/10/14. MR wedi gofyn i Un Llais am gyngor, i drafod gyda Cymorth

Cynllunio Cymru. Clerc i anfon ein sylwadau ymlaen i bawb. I drafod y mater ymhellach. LD i gael adrodd y swyddog.

- 22C221 – Cais llawn ar gyfer creu man parcio dros dro ar dir ger Erwau'r Môr – wedi ei caniatáu.
- Ymweliad safle 22/09 gyda chais Tyrbin Gwynt yr Orsedd.

8. Materion Tir Comin

- Tir Comin ger yr Ysgol - gwaith papur wedi ei arwyddo ar 1/09/14 (TR1) ac wedi ei yrru ymlaen i gyfreithiwr Menter Môn.
- Tir Comin ger Tŷ Medric - cais Mr Warland i gael hawlfraint dros y tir comin i osod peipen dwr dros dir comin hyd at safle ger Glan Gors, gwaith papur wedi anfon ymlaen i gyfreithiwr Mr Warland.

9. Gorchymyn Llwybr cyhoeddus 15 a 22

Wedi derbyn gorchymyn gwiro llwybr 15 a 22 oddi wrth Yr Arolygiaeth Cynllunio, dyddiad dechrau 18/08/14.

Mewn pythefnos o'r dyddiad dechrau 1/09/14 - datganiad achos yn cael ei dderbyn

Mewn 8 wythnos o'r dyddiad dechrau 13/10/14 - bod pawb sydd wedi gwneud datganiad achos i sicrhau bod y pecyn i mewn.

Mewn 14 of the dyddiad dechrau, 17/11/14 - gweinidog i anfon ymlaen copïau o'r datganiad achos ymlaen i bawb.

LD - i anfon ei sylwad i mewn.

Cyngor Cymuned yn siomedig iawn fod nhw ddim wedi cymryd sylw o sylwadau pobl leol.

10. Cyfrifon - cytunwyd i dalu:-

- Carys Hughes, cyfreithiwr – gofrestru tir comin ger yr Ysgol - £344.00
- Neuadd y Pentref – rhodd £207.00

Incwm

- Ail praesept - £1,716.67
- Wayleave - £49.18
- Taith Beics - £207
- Taw 2012/14 - £175.44

11. Gohebiaeth

Llythyr – Cyngor Sir, Llwybr Ponc y Felin

e-bost – Gill Cheverton

e-bost – Cyngor Sir, Bwnd ger Bwthyn Towyn

Llythyr – Cyngor Sir, R P Jones - defnyddio'r Ysgol

Llythyr - Côr Llanddona, diolch am y rhodd.

Cofnodion – cyfarfod Cyngor Sir a Pwyllgor y Neuadd 31/07/14

2 x llythyr - cwynion gyflwr llwybrau lleol

Apel – Shelter Cymru

Llythyr – Arolygiaeth Cynllunio llwybr 15 a 22.

12. UFA:

12.10 Nid oedd S Hunt yn llwyddiannus gyda chais am grant "Tidy Towns". I drafod ymhellach yn cyfarfod nesaf.

12.11 Safle Bws – penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir a oes bosib gosod safle bws ger Pensarn.

12.12 RH yn gofyn pa mor aml da ni yn derbyn arian ar gyfer y sgip ail-gychu? Clerc i wneud ymholiadau.

12.13 Wedi derbyn dau gwyn ynglŷn â chyflwr llwybrau lleol. Clerc wedi trafod y mater gyda'r Contractwr.

Mae gan y contractwr pryder, gyda chymaint o gŵn yn baeddu'r llwybrau, wrth ddifetha ei ddiad. RH yn adrodd bod ni wedi cael canmoliaeth ynglŷn â chyflwr ein llwybrau.

12.14 Clerc yn adrodd - bod MW wedi cael dau aelod o'r pentre' gyda diddordeb dod ar y Cyngor Cymuned.

Clerc i gael arweiniad gan y Cyngor Sir. Posib y byddwn yn gallu cyfethol.

12.15 Awdit blynyddol wedi ei gymeradwyo.

12.16 DP wedi trafod y mater torri'r clawdd ar dir comin ger Pensarn gyda deiliad y tŷ.

12.17 RH - wedi cael cwyn bod coed helyg angen ei dorri.

12.18 MR - defibrilator, nid oes unrhyw gostau i'r Cymuned. Angen cofrestru gyda'r cwmni a threfnu hyfforddiant.

13. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.35 o'r gloch.

Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 15/10/14 am 7.30 yn Capel Peniel.